YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAWL.

MAI, 1871.

ADRODDIAD O EGWYDDORION YSGRYTHYROL UNDODWYR CRISTIONOGOL.

NID ydym yn gwybod rhagor am y traethodyn hwn na'i fod wedi ei gyhoeddi, neu ei ail-gyhoeddi yn ddiweddar gan y GYMDEITHAS BRYDEINIG A THRAMOR UNDODAIDD, gydâ'r sylw canlynol:—"Hysbysir ni gan lawer o gyfeillion yn Lloegr, Scotland, ac Unol Daleithau America, fod y traethodyn hwn wedi bod o wasanaeth dirfawr. Dylai fod wrth law ymhob cartref."—GOL.

1.—Creda yr Undodwyr yn "Un Duw, y Tad." Gal. iii. 20. "Duw sydd un."

1 Cor. viii. 4, 6.—"Nid oes un Duw arall ond un. Canys er bod rhai a elwir yn dduwiau, pa un bynnag ai yn y nef ai ar y ddaear (megis y mae duwiau lawer ac arglwyddi lawer). Eithr i ni nid oes ond un Duw, o'r hwn y mae pob peth, a ninnau ynddo ef, ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y mae pob peth, a ninnau trwyddo ef."

Eph. iv. 6.—"Un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll."

1 Tim. ii. 5.—"Un Duw sydd ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu."

2.—Undodwyr ydynt yn addoli Duw yn unig, fel y gorchymynir gan Iesu Grist; *nid* Mair y Forwyn, Angylion, na Christ.

Matt. iv. 10.—"Yna yr Iesu a ddywedodd wrtho, Ymaith, Satan; canys ysgrifenwyd, Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethu."

Matt. vi. 9.—"Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw."

Ioan iv. 23.—"Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd: canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef."

3.—Creda Undodwyr fod Duw yn dda i bawb, ac i fod ei drugaredd ar ei holl weithredoedd; nid i fod Duw wedi arfaethu colledigaeth neb.

Salm. cxlv. 9.—"Daionus yw yr Arglwydd i bawb: a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd."

Matt. 5. 45.—"Fel y byddoch yn blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd;

canys y mae efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn."

Luc. vi. 35, 36.—"A phlant fyddwch i'r Goruchaf: canys daionus yw efe i'r anniolchgar a drwg. Byddwch gan hynny drugarogion, megis ag y mae eich Tad yn drugarog."

4.—Creda Undodwyr mai Iesu yw y Crist, Mab Duw; *nid* mai efe yw Duw Fab."

Matt. xvi. 16.—"A Simon Petr a attebodd ac a ddywedodd, Ti yw y Crist, Mab y Duw byw."

Ioan xiv. 28.—"Y mae fy Nhad yn fwy na myfi."

1 Cor. xi. 3.—"Pen pob gwr yw Crist; a phen y wraig yw y gwr; a phen Crist yw Duw."

5.—Creda Undodwyr "Mai caru yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl; â'th gymydog fel ti dy hun," yw cyflawniad y gyfraith.

Marc. xii. 29, 31.—"A'r Iesu a attebodd iddo, Y cyntaf o'r holl orchymynion yw, Clyw, Israel; Yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw: A châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth. Hwn yw y gorchymyn cyntaf. A'r ail sydd gyffelyb iddo; Câr dy gymydog fel ti dy hun. Nid oes un gorchymyn arall mwy na'r rhai hyn."

1 Tim. 1, 5.—"Eithr diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd diragrith."

6.—Creda Undodwyr am y natur ddynol, mai "Duw a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain;" *nid* ein bod wedi ein geni yn hollol lygredig ac analluog i ddaioni.

SALM. c. 3.—"Gwybyddwch mai yr Arglwydd sydd Dduw: efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain; ei bobl ef ydym a defaid ei borfa."

Matt. xviii. 2, 3.—A'r Iesu a alwodd atto fachgennyn, ac a'i gosododd yn eu canol hwynt; Ac a ddywedodd, Yn wir y dywedaf i chwi, Oddi eithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd."

Marc. x. 14.—"Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi, ac na waherddwch iddynt; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

1 Cor. xiv. 20.—"O frodyr, na fyddwch fechgyn mewn deall; eithr mewn drygioni byddwch blant; ond mewn deall byddwch berffaith."

7.—Creda Undodwyr mai "Yr hwn a wnelo ddrwg a raid ddioddef am y drwg a wnaeth, ac y derbynia pob un y pethau a wnaethpwyd, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynnag ai drwg ai da."

Rhuf. ii. 6.—"Yr hwn a dal i bob un yn ol ei weithredoedd."

2 Cor. v. 10.—"Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist."

Col. iii. 25.—"Ond yr hwn sydd yn gwneuthur cam, a dderbyn am y cam a wnaeth; ac nid oes derbyn wyneb."

Dat. xxii. 12.—"Wele yr wyf yn dyfod ar frys; a'm gwobr sydd gyd à mi, i roddi i bob un fel y byddo ei waith."

8.—Creda Undodwyr "ddyfod Crist i'r byd i gadw pechaduriaid," ac nid i gymeryd ei gospi yn eu lle hwynt.

Matt. i. 21.—"Efe a wared ei bob oddiwrth eu pechodau."

Act. iii. 26.—"Duw wedi cyfodi ei Fab Iesu, a'i hanfonodd ef i chwi yn gyntaf,

gan eich bendithio chwi, trwy droi pob un o honoch ymaith oddiwrth eich drygioni."

2 Cor. v. 15.—"Ac efe a fu farw dros bawb fel na fyddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt ac a gyfodwyd."

Titus ii. 14.—"Yr hwn a roddes ei hun drosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da."

1 Petr ii. 21.—"Canys i hyn i'ch galwyd hefyd; oblegid Crist yntau a ddioddefodd drosom ni, gan adael i ni esiampl, fel y canlynem ei ôl ef."

9.—Creda Undodwyr mewn iechydwriaeth trwy ras rhydd a dibryn Duw; *nid* trwy broffes ffydd yn unig, na thrwy haeddiant gweithredoedd da.

Salm. lii. 8.—"Ymddiriedaf yn nhrugaredd Duw byth ac yn dragywydd."

Eph. ii. 8, 9.—"Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hynny nid o honoch eich hunain; rhodd Duw ydyw. Nid o weithredoedd fel nad ymffrostiai neb."

Titus iii. 5.—"Nid o weithredoedd cyfiawnder a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni."

10.—Creda Undodwyr, "Os y gadawa y drygionus ei ffordd," y caiff faddeuant, ac "os y maddeuwn, y maddeuir i ninau."

Esai. lv. 7.—"Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth."

Ezec. xviii. 27.—"A phan ddychwelo yr annuwiol oddiwrth ei ddrygioni yr hwn a wnaeth a gwneuthur barn a chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei enaid."

Matt. vi. 14.—"Oblegid os maddeuwch i ddynion eu camweddau, eich Tad nefol a faddeu hefyd i chwithau."

Luc vi.—"Ac na fernwch ac ni'ch bernir; na chondemniwch ac ni'ch condemnir; maddeuwch a maddeuir i chwithau."

11.—Creda Undodwyr fod y Beibl yn cynwys gair Duw; *nid* i fod pob gair a gynwys yn air Duw.

2 Tim. iii. 16.—"Yr holl ysgrythyr wedi ei rhoddi gan Ysbrydoliaeth Duw sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder."*

Job xvi. 1, 3.—"A Job a attebodd ac a ddywedodd, Clywais lawer o'r fath hyn; cysurwyr gofidus ydych chwi oll. Oni cheir diwedd ar eiriau ofer?

[Ni ddywedir yn un man mai gair Duw yw'r Beibl. Mae geiriau Job yn dangos yn eglur nad ydoedd efe yn credu fod geiriau eu gysurwyr tan Ddwyfol Ysbrydoliaeth, onite, paham y geilw hwynt yn "eiriau ofer"?]

12.—Mae Undodwyr yn dal mai hawl a dyledswydd dyn yw Rhydd

---

* Mae y cyfieithad a roddwn uchod yn gyson â'r Groeg, yr hyn nid yw y cyfieithad cyffredin. Mae yn hysbys i feirniaid *dysgedig* fod y gair bach *kai*, a gyfieithir *ac*, o awdurdod ammheus yn yr adnod hon. Nid dyben yr Apostol yw rhoddi ei farn ar ysbrydoliaeth ddwyfol yr ysgrythyrau, ond dangos eu bod yn addas i addysgu dynion mewn rhinwedd a daioni. Mae y ffaith fod yr Ysgrythyrau yn traethu am ddynion ag oeddynt tan ddylanwad Ysbryd Duw yn ddigon i gyfiawnhau yr Apostol yn ei ddefnyddiad o'r gair *theopneustos*, a gyfieithir *Ysbrydoliaeth Duw*, er na chredai fod yr awdwyr, mwy nac ysgrifenwyr eraill, tan dywysiad yr Ysbryd Glan gyda golwg ar y geiriau a ddefnyddiant i ddynodi eu meddwl.—GOL.

Chwiliad, ac nad oes gan neb awdurdod i arglwyddiaethu ar gydwybodau dynion mewn pethau crefyddol.

Matt. xxiii. 8.—"Eithr na'ch galwer chwi, Rabbi; canys un yw eich Athraw chwi, sef Crist; a chwithau oll brodyr ydych."

1 Ioan iv. 1.—"Anwylyd, na chredwch bob yspryd, eithr profwch yr ysprydion ai o Dduw y maent."

1 Thes. v. 21.—"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."

13.—Creda Undodwyr na "wrthyd yr Arglwydd yn dragywydd," ac i fod pob cosp yn ei dyben yn wellhaol, nid yn dragwyddol.

Deut. viii. 5.—"Cydnebydd dithau yn dy galon fod yr Arglwydd dy Dduw yn dy ddysgu (yn dy geryddu) di, fel y dysg (y cerydda) gwr ei fab ei hun."†

Galar. iii. 31.—"Oblegid nid yn dragywydd y gwrthyd yr Arglwydd."

Micah vii. 18.—"Ni ddeil efe ei ddig byth am fod yn hoff ganddo drugaredd."

Heb. xii. 10.—"Canys hwynthwy (ein rhieni) yn wir dros ychydig ddyddiau a'n ceryddent fel y gwelent hwy yn dda; eithr hwn (Duw) er lleshad i ni, fel y byddem gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef."

14.—Creda Undodwyr mewn stâd ddyfodol o ddedwyddwch diderfyn ei barhad.

Ioan xii. 2.—"Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau; a phe amgen mi a ddywedaswn i chwi, Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi."

1 Cor. xv. 53.—"O herwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb."

2 Cor. v. i.—"Mae i ni dy nid o waith llaw, tragwyddol yn y nef."

Dat. xxi. 4.—"Ac fe sych Duw ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt; a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach; oblegid y pethau cyntaf a aeth heibio."

Duwinyddiaeth.

Athrawiaeth yr Iawn.

Nid oes ac nis gall unrhyw athrawiaeth fod yn fwy niweidiol i gyfiawnder a chariad yr Anfeidrol Fod na'r hon a arweinia ddynion i feddwl am Dduw, nad yw yn maddeu pechod ar edifeirwch y pechadur, heb iddo yn gyntaf drefnu "ffordd" i foddloni cyfiawnder. Meddwl ydym ni nad yw athrawiaeth ryfeddol y Drindod yn fwy diraddiol i fawredd y Tad Nefol, nac yw athrawiaeth yr Iawn. Llygredd Cristnogaeth y'nt eill dwy. Yn wir, mae un yn dal cysylltiad agos â'r llall. Oddieithr

---

† Y gair Hebraeg a ddefnyddir yn yr adnod yw *iasar*, yr hwn sydd yn meddwl fynychaf *ceryddu*. Os yw Duw yn ceryddu yn y bywyd hwn fel y cerydda tad ei blentyn, sef i'w wellhau, yn sicr cerydda gyda'r un fath ddybenion yn y bywyd i ddod, onite, mae Duw yn Fod cyfnewidiol.—Gol.

yr hen gynllun iawnol cyntaf, ac yn ol ein barn ni, y mwyaf rhesymol, sef mai rhoddi iawn i'r diafol wnaeth marwolaeth Crist, egwyddor pob cynllun iawnol yw fod pechod yn erbyn Bod Anfeidrol yn gofyn iawn anfeidrol, ac o ganlyniad fod yn rhaid cael person anfeidrol i'w roddi. Rhyfedd genym na chanfyddai cofleidwyr yr Iawn mai canlyniad naturiol eu hathrawiaeth yw i "natur ddwyfol" Crist farw ar y groes, hyny yw, i'r Anfarwol Dduw gael ei osod i farwolaeth gan ei greaduriaid, yr hyn nid ydynt yn credu. Os yw pechod yn erbyn Bod Anfeidrol yn gofyn iawn anfeidrol, rhaid mai Anfeidroldeb drengodd ar y groes! Nid oes un casgliad arall ellir dynu oddiwrth yr athrawiaeth.

Y sylw cyntaf a gynygwn yw, fod yr athrawiaeth hon yn taro tan wraidd yr athrawiaeth ysgrythyrol am drugaredd Duw, sef ei fod yn maddeu yn rhad i bob pechadur ar ei edifeirwch yn unig, a hyny heb un awgrymiad i fod yn rhaid yn gyntaf foddloni cyfiawnder, ac i'r gyfraith gael ei hanrhydeddu trwy offrymiad a dyoddefaint un ag oedd o ran ei hunan yn hollol ddibechod. Yn sicr, athrawiaeth y Beibl yw maddeuant rhad, ond os ydyw gofynion cyfiawnder wedi cael ei boddloni, nid rhad mwyach yw maddeuant, yn enwedig o du Dduw, ond peth wedi ei brynu, wedi ei dalu am dano. Camwedd ar iaith fyddai dyweyd fod gofynwr yn maddeu yn rhad i'w ddyledwr pan fyddo y ddyled wedi ei thalu gan arall yn ei le. Nid rhyw drefn o'r fath hyn sydd i'w ddeall wrth fod Duw yn maddeu yn rhad.

Rhy faith fyddai dyfynu pob ymadrodd ysgrythyrol i ddangos mai barn yr ysgrifenwyr sanctaidd oedd fod Duw yn maddeu i'r pechadur ar ei edifeirwch. Mae y fath ymadroddion yn rhy aml, oblegid dyma yw canol swn yr ysgrythyrau. Digon yw cyfeirio at un neu ddau a ddeuant i'n cof ar y fynyd. Y nodweddiad a rodda Duw o hono ei hun i'r Israeliaid wedi iddynt bechu yn ei erbyn trwy y llo aur hwnw a wnaethant, sydd ymadrodd tra nodedig:—"Yr Arglwydd a aeth heibio o'i flaen ef (Moses), ac a lefodd, JEHOVAH, JEHOVAH, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd; yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn," Exod. xxxiv. 6, 7. Yn y frawddeg olaf yma—"heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn"—mae rhywbeth mor hynod a phe byddai yr Arglwydd yn cyfeirio yn bennodol at ryw athrawiaeth a ddysgai ddynion i gredu fod yn ddichonadwy i'r anwir gael ei gyfiawnhau trwy haeddiant un arall.

Yn unol â thystiolaeth Jehovah am dano ei hun trwy Moses, ysgrifena yr Apostol Paul am y sawl sydd yn credu yn Nghrist, eu bod "wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef (Duw), trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu," Rhuf. iii. 24. Yna mae'r Apostol yn dyweyd pwy yw y sawl sydd yn cael eu cyfiawnhau, sef y sawl "sydd o ffydd Iesu," ac nid y sawl a ymddiriedant yn yr Iawn, fel y dysgir gan dduwinyddion Trindodaidd. Am y gair a ddefnyddir yma* gan yr Apostol, ac a gyfieithir "prynedigaeth," dylem ddyweyd mai ei ystyr cyntefig yw gwaredigaeth un o gaethiwed trwy dalu idd ei berchenog y gwerth

---

* *Apolutrôsis.*

a ofyna am dano. Defnyddir y gair yn y fan hon, a manau eraill, mewn ystyr ffigwraidd i ddynodi gwaredigaeth o gaethiwed pechod, yr hwn a ystyrir fel mewn meddiant o'r pechadur. Wedi dihatru y gair o'i wisg ffigwraidd, y meddwl yw fod dylanwad dyoddefaint ac adgyfodiad Crist ar galonau pechaduriaid edifeiriol y fath fel ag idd eu dwyn hwynt i garu Duw a chasau pechod. Yn fyr, mae dylanwad Crist yn lladd y natur bechadurus ynddynt, ac yn ei haddasu i dderbyn trugaredd Duw, yr hwn a faddeu yn rhad. Fe wel y darllenydd yn awr nad oes yn y gair *prynedigaeth* mo'r awgrymiad lleiaf at y fath athrawiaeth â iawn i gyfiawnder.

Mae hefyd ymadrodd cyffelyb o eiddo yr Apostol yn dod i'n cof. Mae yn ei epistol at Titus iii. 7,—"Fel wedi ein cyfiawnhau trwy ei ras ef (Duw), y'n gwneid yn etifeddion yn ol gobaith y bywyd tragwyddol." Yn sicr, pe credasai yr Apostol fod maddeuant wedi ei brynu i bechadur trwy ddyoddefaint un arall, fel iawn i ofynion cyfraith, nid cymmwys fyddai dyweyd am Dduw ei fod yn maddeu "trwy ras." Ystyr y gair *gras* yw rhodd heb un hawl iddi gan y derbyniwr; ond os yw Crist wedi talu y ddyled dros y pechadur, nid yw maddeuant yn beth hollol ddihawl iddo.

Yr un peth yw holl swn yr ysgrythyrau gyda golwg ar faddeuant. Y'mhob man darlunir Duw fel yn maddeu yn rhad i'r pechadur ar ei edifeirwch a'i ddychweliad i ffyrdd rhinwedd a sancteiddrwydd. Egwyddor maddeuant yn yr ysgrythyrau yw, fel y dywed yr Arglwydd trwy yr hen brophwyd Isaiah, "Deuwch yr awr hon, ac ymresymwn, pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wynned â'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan."

Yn gydweddol â hyn yw tystiolaeth yr Iesu ei hun. Dysga ni i weddio, "Maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr," sef y sawl a dramgwyddant i'n herbyn. Yr ydym i faddeu i'r cyfryw ar eu hedifeirwch. Ar yr un telerau mae i ni ddysgwyl maddeuant gan Dduw.

Hefyd, y'mhob man y cyfeiria yr Iesu at ei farwolaeth, nid ydym yn cael un awgrymiad fod ei farwolaeth i gael ei hystyried yn iawn i ofynion cyfiawnder. Mae yn wir fod y gair *iawn* yn y Beibl, ond nid yw yn cael ei arferyd yn un man yn yr ystyr o iawn i gyfiawnder nac i gyfraith, fel y cawn ddangos yn helaethach y'mhen tipyn. Yr unig iawn a ofyna Duw ydy' edifeirwch y pechadur, oblegid gyda golwg ar iawn seremoniol cyfraith Moses, nid oedd a fyno yr Efengyl â hwnw.

Nid ychwanegwn y tro hwn, oblegid mae genym fwriad i ddychwelyd at y pwnc yn y rhifyn nesaf, ac, fe allai, mewn amryw ar ei ol. Ystyriwn ei fod yn bwnc pwysfawr yn gymmaint a'i fod yn bwnc ffydd miloedd o'n cyd-gristionogion, am hyny ni a'i trafodwn, gobeithiwn, mewn ysbryd pwyllog a difrifol, er, ar yr un pryd, yr ystyriwn nad oes un athrawiaeth a dafla fwy o sarhad ar nodweddiad Duw, fel y sylwasom yn barod, nac a wna yr athrawiaeth ryfeddol hon. Ein hamcan fydd dwyn dynion i weled ac i deimlo hyn, ac i'w harwain yn ol at athrawiaeth yr ysgrythyrau, sef maddeuant rhad i'r pechadur edifeiriol.

Gohebiaeth.

Y "New School" a'r "Old School."—Y Gwahaniaeth rhyngddynt.

Syr,

Byddwch cystal a chaniatau ychydig ofod i mi i ddodi ger bron darllenwyr yr YMOFYNYDD y prif wahaniaeth rhwng y *New School*, neu beth bynag y gelwir y sawl a goleddant y syniadau ag y cyfeiria "J. M. ——R" atynt yn rhifyn Mawrth, â'r *Old School* o Undodiaid. Yr wyf yn meddwl na fyddai yn anfuddiol.

Os wyf wedi deall yn iawn, mae'r *Old School* yn dal i Iesu Grist brofi, neu ddangos, dwyfoldeb ei genadwri trwy gyflawni gwyrthiau, neu weithredoedd na allasai neb eu gwneud oni bai fod Duw gydag ef, ac iddo gyfodi o feirw fel mae yr hanes am dano; hyny yw, maent yn sefydlu gwirionedd y grefydd Gristnogol ar dystiolaeth hanesiaeth. Mae y *New School*, o'r ochr arall, yn gwrthod gwyrthiau fel pethau, os nid yn ammhosibl yn ol trefn natur—pethau nad oes sicrwydd iddynt erioed gael eu cyflawni gan neb, am hyny nad yw y gwyrthiau a briodolir i Grist yn wir, ac na chyfododd o feirw ychwaith. Dyma wahaniaeth dirfawr. Pa fodd, ynte, mae y *New School* yn cyfrif am yr hanes yn y Testament Newydd? Nid ydynt oll yn cytuno ar y pen hwn. Ond os nad wyf yn camgymeryd, dyweda y mwyafrif yn eu plith fod yr Iesu yn ddiwygiwr crefyddol mor nodedig o ran rhinwedd, ysbryd defosiynol, ac anghyffredinolrwydd ei syniadau a'i addysgiadau moesol, fel y gwnaeth y fath argraff ar feddyliau dynion nes y darfu i'w ganlynwyr ar ol ei farwolaeth ddychymygu llawer o bethau am dano o bryd i bryd, ac yn benaf oll iddo wneud llawer o wyrthiau, ac ymddangos yn fyw i'w ddisgyblion y trydydd dydd wedi ei ddyoddefaint. Yn y diwedd casglwyd y'nghyd lawer o chwedlau am dano fel gwneuthurwr gwyrthiau, gyda llawer o'i addysgiadau moesol ag oeddynt hyd hyny wedi cael eu cadw mewn cof trwy draddodiad, dros o leiaf bedwar ugain neu gan' mlynedd. Am hyny dywedant mai casgliad o chwedlau a ffeithiau, gwirionedd a *myths*, yw y pedair Efengyl ar enwau Matthew, Marc, Luc, ac Ioan. Ystyriant hefyd mai chwedl, neu rywbeth cyffelyb, yw hanes adgyfodiad Crist a'i esgyniad i'r nef. Er hyny, mae'r *New School* yn credu yn anfarwoldeb dyn ac mewn bywyd i ddod, ond ar dir gwahanol. Sefydlant eu cred ar dystiolaeth natur a goleuni mewnol yr enaid, ar yr hwn oleuni y gosodant bwys mawr—*the moral and spiritual intuitions of the soul.*

Mae y *New School* hefyd yn gwahaniaethu oddiwrth yr *Old* gyda golwg ar ysbrydolrwydd, wrth yr hwn air y deallaf beth a elwir yn Saesneg, *Inspiration.* Barn yr *Old School* yw fod ysbrydolrwydd yn fath o ddylanwad goruwch-naturiol ar feddwl y prophwyd, ac yn gweithredu mewn rhyw fodd ag sydd yn ddirgelwch i ni. Yn fyr, gwyrth yw, ac am hyny gwrthodir y *ddogma* neu y gredo gan y *New School.* Daliant hwy, o'r ochr arall, mai nid peth goruwch-naturiol yw *inspiration*, ond i fod pob dyn yn agored i'r fath ddylanwad, a hyny mewn ffordd hollol naturiol. *Inspiration*, meddant, yw pob cynhyrfiad i ddaioni, pob ymdrech tros rinwedd, pob hunanymwadiad tros les tymhorol ac

ysbrydol dynolryw. *Inspiration*, yn eu barn hwy, yw pob peth a briodola yr *Old School* i athrylith naturiol *(natural genius)*, pa fodd bynag y tyr allan—yn awen y bardd, hyawdledd yr areithiwr, cywreindeb y rhifyddwr, a threiddiadau athronydd anian. Yr un peth, yn eu barn hwy, oedd *inspiration* Socrates ag *inspiration* Iesu Grist. Tan yr un dylanwad gyda golwg ar ysbrydoliaeth oedd Luther neu Calvin ag oedd yr Apostol Paul. Yn yr un rhestr gan y *New School* mae y prophwyd Isaiah â Homer, Dante, Shakspeare, neu Milton. Os oes gwahaniaeth yn bod yn yr ysprydoliaeth, mewn gradd y mae ac nid yn ei natur. Mae y *New School* yn dyweyd yn erbyn y peth a elwir yn Saesneg *dogmatic divinity*, hyny yw, duwinyddiaeth wedi ei throi yn gredo. Mewn gair, i wrthwynebu *dogma* yr *Old School* gosodant i fyny *ddogma* o eiddo eu hunain.

Os wyf yn iawn yn y darluniad, ac nid oes genyf fwriad i wneud cam a syniadau neb, gwel y darllenydd fod gwahaniaeth anghymodadwy rhwng y ddwy *School* yma. Mae yn ymddangos i fi mai rhyw fath newydd o ddeistiaeth yw, ac nid wyf yn dyweyd hyn gydag unrhyw anmharch. Rhaid i'r syniadau hyn eto, fel llawer eraill o'u blaen, gael eu rhediad. Fel crefydd nid wyf yn meddwl y gwna fawr o argraff ar y byd, ac nid yw Cristnogaeth, fel crefydd hanesiol, mewn nemawr berygl oddiwrthi.

Ydwyf, yr eiddoch, &c.,

G. S.

Esboniadau.

THES. iv. 15. *Canys yr ydym ni yn ei ddywedyd wrthych y'ngair yr Arglwydd, na bydd i ni y rhai byw, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr Arglwydd, ragflaenu y rhai a hunasant.*] Barn esbonwyr yn gyffredin yw fod yr Apostol yn credu y byddai dyfodiad Crist ac adgyfodiad y meirw i ddygwydd o bosibl yn ei oes ef. Os hyn oedd ei farn, ac amser wedi datguddio iddo gamsynied, pa fodd y gallasai ddyweyd fod hyn yn ddatguddiad oddiwrth yr Arglwydd? Dyma un o *arguments* yr anghredinwyr yn erbyn dwyfol ysbrydoliaeth yr Apostol, ond fel llawer eraill o'u gwrthddadleuon, mae yn tarddu o'u hanwybodaeth o'r Ysgrythyrau. Yr ydym yn ateb y dylai y darllenydd ddeall nad yw rhagfynegu dygwyddiad yn cynwys fod prophwyd yn deall ei natur na phryd y cymerai le. Mae yr hen brophwydi yn rhagfynegu dyfodiad y Messiah, ond nid oeddynt yn deall yn iawn natur ei deyrnas, nac yn gymmwys pryd y deuai. Y ffaith yn unig fod y fath ddynsawd i ddod oeddent hwy yn wybod. Dyna'r ysbrydoliaeth. Felly hefyd am adgyfodiad y meirw a dyfodiad Crist. Yr oedd yr Apostol yn sicr ar dystiolaeth Crist ei hun, y byddant i gymeryd lle, ond gyda golwg ar yr amser a'r dull, nid oedd gan yr Apostol ddim ond ei dybiaeth ei hun. A phwy ryfedd? Ni wyddai yr Iesu ei hun pryd y byddai. "Eithr," medd efe, "am y dydd hwnnw a'r awr (yr amser y cymerai le) ni wyr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad yn unig."

Ioan x. 11. *Myfi yw y bugail da.*] Mae gwybodaeth o gwstwm a chyflwr gwlad Judea yn yr hen oesoedd yn ddigon i'n hargyhoeddi o briodolder dull yr Iesu yma o anerch ei wrandawyr. Cynhwysai praidd y rhan fwyaf o gyfoeth y wlad, ac y mae gwaith Jacob, Dafydd, ac eraill, yn eu bugeilio yn brawf nad ystyrid y swydd yn un isel. Gwaith oedd bugeilio y praidd a ymddiriedid, nid i weision a dyeithriaid, ond i ddynion o gyfoeth ac urddas. Nid oedd y swydd yn rhy wael i benaeth y teulu a'i blant, hyd yn nod y perthynent i'r teulu brenhinol. Yn wir, yr ydym yn darllen fod plant brenhinoedd yn yr hen amser yn fugeiliaid, ac efallai na fyddai yn ddrwg ar les y byd pe troid rhai o honynt yn fugeiliaid eto. Digon tebyg mai oddiwrth y cwstwm hwn y tarddodd y frawddeg "Bugail ei bobl" am frenin. Dyma y rheswm hefyd y dysgrifir y Messiah fel bugail ac y mabwysiadir yr enw gan yr Iesu. Mae yn deilwng hefyd o sylw fod y dull o drafod defaid yn y dwyrain yn llawer mán yn wahanol iawn i'n dull ni. Nid erlid y defaid o'u blaen a'u tarfu â chwn wnai bugeiliaid Judea, ond eu harwain. Trwy garedigrwydd a dysg yr oedd y defaid yn dyfod i'w canlyn, ac i adnabod eu llais. Mae ymadrodd Crist yn y bennod hon y'nghylch ei ddefaid yn eithaf dealladwy i'r sawl sydd yn gwybod rhywbeth am fugeiliaid Judea. Mae gwaith anghredinwyr yn ei dirmyg-wenu yn dangos eu hanwybodaeth, ac mai nid effaith dwfn-fyfyrio ar yr Ysgrythyrau yw eu gwrthwynebiad iddynt, ond rhyw fympwy maent wedi gymeryd i fyny er mwyn gwneyd eu hunain yn ddoethach na dynion eraill. Dichon hefyd fod dymuniad dirgelaidd gan rai nad yw Cristnogaeth a dydd barn yn wirionedd.

Math. xii. 38, 39, 40. *Athraw, ni* (ysgrifenyddion a Phariseaid) *a chwennychem weled arwydd gennyt. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Cenhedlaeth ddrwg a godinebus sydd yn ceisio arwydd; ac arwydd nis rhoddir iddi ond arwydd y prophwyd Jonas. Canys fel y bu Jonas dridiau a thair nos ym mol y morfil, felly y bydd Mab y dyn dridiau a thair nos y'nghalon y ddaear.*] Arwydd o'r nef sydd yma i'w ddeall fel yn xvi. 1, Marc viii. 2, a Luc xi. 16,—arwydd yn yr awyr, yn y cymylau, megys taranau a lluched, neu ryw olygfa ddyeithr, fel y credent i'r Iesu ddyfod allan oddiwrth Dduw, oblegid yr oeddynt yn ffuantu nad oedd y gweithredoedd nerthol a welasant yn ddigon i roddi boddlonrwydd iddynt. Gallasent gael eu gwneyd trwy fod cyngrair rhyngddo â *Beelzebub*, neu yn hytrach, efallai, *Beelzeboul*, pennaeth y cythreuliaid, Luc xi. 15. Ystyr y gair Beelzebub yw *duw'r gwybed*, am y meddyliai ei addolwyr ei fod yn ymlid pryfed blinderus o'r fath allan o'i dalaeth. Digon tebyg fod yr Iuddewon yn galw y duw hwn, mewn math o ddirmyg, Beelzeboul, hyny yw, *Duw'r baw (ordure)*. Er hyny, credent fod y duw hwn yn galluogi swynwyr i ddewino, fel y gwelir yn y bennod uchod, adnod 24. Gan i fod yn bosibl ei fod mewn cyngrair â "phennaeth y cythreuliaid," fel y tybient, dywedant wrtho y byddent yn fwy sicr pe gwelent arwydd ganddo o'r nef, oblegid meddylient nad oedd gallu y duw yn cyrhaeddyd yno. Mae'r Iesu yn eu hateb mewn ystyr fel y canlyn :—"Yr ydych yn ffuantu nad yw fy ngwaith yn rhoddi traed i'r cloffion, llygaid i'r deillion, iawn bwyll i'r lloerig, gwaredigaeth oddiwrth ysbrydion aflan, iechyd i'r claf, yn ddigon o brofion fy

mod yn dyfod oddiwrth Dduw. Yn wir, yr ydych yn eu priodoli i gyngrair rhyngof â Beelzebub, ac yn awr yn ceisio arwydd o'r nef, fel y byddoch yn sicr nad oes a fyno Beelzebub ag ef. O'ch rhagrith a'ch calonau maleisus mae y cais hwn yn deilliaw. Mae Duw yn gwybod eich dyben ac mai cenhedlaeth ddrwg a godinebus* ydych. Eich amcan mewn gwirionedd yw fy niweidio i â'ch geiriau cellwerus a gwanhau ffydd y bobl ynof. Pe celech eich boddhau â'r fath arwydd a geisiwch, byddech yr un mor gyndyn ag ydych yn awr. Ond chwi gewch arwydd cyn bo hir, ond nid arwydd i geisio eich troi chwi fydd, oblegid mae yn eithaf amlwg fod hyny yn beth ammhosibl. Nid arwydd o'r nef, ond arwydd o'r ddaear fydd—o'r gwaelod, tebyg i arwydd y prophwyd Jonas, yr hwn a ddywedir iddo fod y'ngwaelod y mor mewn bol morfil. Arwydd fydd o'm diniweidrwydd i, ac o'ch malais a'ch creulonder chwithau, oblegid ni fyddwch yn esmwyth nes y dygoch fy mywyd er cymmaint o weithredoedd nerthol wyf wedi gyflawni yn eich gwydd, ac o ddaioni wyf wedi wneyd yn eich plith. Fel y bu y prophwyd hwnw dridiau a thair nos ym mol y morfil, felly y bydd yn rhaid i minau fod cyn bo hir, o herwydd eich drygioni chwi, cyhyd amser yn y bedd."

Adnod 40. *Felly y bydd Mab y dyn dridiau a thair nos y'nghalon y ddaear.*] Mae anffyddwyr yn gwneyd defnydd o'r geiriau hyn i ddangos nad yw'r hanes am adgyfodiad Crist i ymddibynu arno, oblegid dywedir fod yr Iesu yn y bedd dridiau a thair nos, pan mewn gwirionedd na fu gymmaint. Yn hyn eto dangosant mai arwynebol iawn yw eu gwybodaeth o ieithwedd yr Ysgrythyrau. Yn awr, dalied y darllenydd sylw ar yr hyn a ganlyn fel na fyddo iddo gymeryd ei gamarwain. Dwy noswaith yn unig, un diwrnod, a rhan o ddau ddiwrnod, sef rhan o'r dydd cyntaf a'r trydydd, y bu yr Iesu yn y bedd. Yn gymmaint, er hyny, a bod yr Hebreaid yn dechreu eu diwrnod gyda'r nos, galwant y ddwy nos, gyda rhan y dydd cyntaf yr hwn oedd wedi dechreu gyda'r nos o'r blaen, a'r rhan o'r trydydd dydd, sef dydd yr adgyfodiad, *yn dridiau a thair nos.* Gwel Gen. xlii. 17, 18; Deut. xiv. 28; 1 Sam. xxx. 12; 2 Chron. x. 5, 12. Dyma arfer yr Iuddewon o gyfrif dyddiau a nosweithiau. Nid oes dim sy'n anneallad wy yma i'r sawl sydd yn gwybod y cwstwm Iuddewig. Ond arfer anffyddwyr yw cymeryd gafael o bethau bach o'r fath hyn, ac y mae dynion anneallus yn credu fod ei gwrthwynebiadau yn *glefer* iawn.

I'R GOFID.

"Telyn Dewi," tud. 74.

Mewn gafael yr y'm â'n gofid—beunydd
Yn boenus trwy'n bywyd;

---

* Nid yn anfynych y cydmerir Duw yn yr Hen Destament i wr, a'r genedl Hebreaidd i wraig. Iaith ffigwraidd yw i ddynodi y berthynas agos oedd rhyngddi â Duw. Yn ol yr un ffigwr cydmerir y genedl yn ei hanffyddlondeb, ei thueddiadau eilunaddolgar, ei hannuwioldeb a'i drygioni, i wraig anffyddlon, yn gadael ei gwr priod ac yn gosod ei serch ar arall. Am hyny gelwir hi yn genedl odinebus, hyny yw, cenedl eithaf pechadurus. Gwel Jer. iii. 1, 2; Isai. lvii. 3; Hos. iii. 1, 2, 3.

Rho'wn Amen am ben i'm byd
O gwynfan, a chael gwynfyd.

Is sêr, y trawsder a'r tristwch,—galar
Ac wylo fyth welwch;
Ni ddaw i ddyn ddiddanwch
Dàn y lloer, nes myn'd yn llwch.

Yn y byd gofid a gefais,—dolur
Hir dulym oddefais;
Ar fy Iôn yr erfyniais
Wrandaw 'nghŵyn, oernad, a 'nghais.

"Tyred, Iôn, gwared un gwirion,—egwan,
A dwg o'i helbulon;
Drwy wellâd o'i drallodion
Gwna ddyn llesg yn hoyw-ddyn llòn."

Duw sydd arweinydd i'r union;—ceidwad
Mwyn, cadarn i'r cyfion;
Rhag pob dig a pherig' ffon',
Ddy' taro at Dduw tirion.

Dâd f' enaid! d'wed di fwynair,—a diddig
Y dioddef oganair;
Nid yw'n anodd dwyn anair
Dàn gysuron dwysion d' air.

Gwagedd a gwaeledd golud—a weli
Pan elot i symud,
O'th fwyndrem gaer a'th feindrud,
I orwedd i fedd yn fud.

Aniandraeth.

Yr achos o wahanol dymhorau y flwyddyn.

Awn rhagom yn awr i egluro yr achos o dymhorau y flwyddyn, sef Gwanwyn, Haf, Hydref, a Gauaf. Nis gall dim yn Seryddiaeth fod yn fwy dyddorol a phwysfawr i drigolion y ddaear i wybod na'r achos fod yr haul yn ymddangos yn fwy yn y gauaf nac yn yr haf, ac yn cilio y'mhell i'r de un rhan o'r flwyddyn ac yn sefyll megys uwch ein pen y rhan arall.

Anhawdd yn wir yw darlunio'r achos i ddarllenwyr cyffredin nad ydynt yn gwybod dim am reolau rhif a mesur, nac am y cyfreithiau sydd yn rheoli y greadigaeth; ond ni a wnawn ein goreu i osod yr achosion o wahanol dymhorau ein daear yn eglur i bawb a feddant synwyrau naturiol.

Y peth cyntaf gynghorem y darllenydd yw gwneuthur cylch o bren neu haiarn ar lun O, a'i hongian uwch ben bwrdd *(table)*—bwrdd mawr y gegin os myna, ac os oes ganddo y fath fwrdd. Gofaled fod llawr *(plane)* y cylch yn gydwastad *(parallel)* â gwastadedd y bwrdd. Meddylied fod y cylch yn sefyll o'i flaen a'i hir ochrau—y naill ar ei law ddehau a'r llall ar yr aswy. Yna sicrhaed ganwyll yn llawr y cylch,

nid yn gymmwys yn y canol, ond ychydig yn nes i'r pen nesaf ato nac i'r llall. Yn nesaf cymered bellen wedi ei thrywanu trwy ei chanol â gwall nes y byddo ei dau pen bob ochr i'r bellen. Meddylied mai y ddacar yw y bellen, dau pen y wall y pegynau, ac mai y cylch yw llwybr blynyddol y ddacar o amgylch yr haul. Meddylied hefyd fod y bellen yn symud ar hyd y cylch o'r de i'r aswy yn y fath fodd a bod y wall yn sefyll nid yn syth i lawr y cylch, nac ychwaith yn gyfochrog â'i lawr, ond yn oleddu oddeutu 23½ gradd at wastadedd y cylch o tano, ac oddeutu 66½ gradd oddiar ei wastadedd. Dychymyged fod y pegwn sydd yn oleddu oddiar wastadedd y cylch yn y pen pellaf oddiwrtho, ac yn oleddu tuag ato. Yn y sefyllfa hyn bydd y bellen yn cynddrychioli sefyllfa y ddacar y dydd hwyaf yn yr haf, sef oddeutu yr unfed ar hugain o Fehefin. Pen nesaf y wall at y ganwyll yw y pegwn gogleddol. Os deliwch sylw manwl chwi ganfyddwch fod goleuni y ganwyll yn cyrhaeddyd tu hwnt i'r pegwn hwn, hyny yw, mae'r holl begwn yn y goleu, yr hwn sydd yn cyrhaedd oddeutu 23½ tu hwnt iddo yr ochr uwch i'r pegwn. Chwi wyddoch fod y ddacar yn rhoi tro yn *round* o amgylch ei phegynau bob pedair awr ar hugain. Yn awr, gan i fod goleuni yr haul y pryd hwn yn cyrhaeddyd tu hwnt i'r pegwn, nid yw yn myned o'r golwg trwy y pedair awr ar hugain y'mhob lle ag sydd o fewn 23½ i'r pegwn. Chwi ganfyddwch hefyd fod y rhan sydd yn dywyll o'r bellen yn fach iawn yn y gogledd mewn cydmarhaeth i'r rhan sydd yn oleu, ac nad yw yr haul yn gofyn yn agos cynmaint o amser i fyned trwy y parth tywyll ag a gymer i fyned trwy y parth goleu, hyny yw, mae y dydd yn llawer hwy yn awr na'r nos yn y parthau gogleddol, ac i'r gwrthwyneb yn y parthau deheuol.

Yn nesaf, meddyliwch fod y bellen yn symud yn raddol ar hyd y cylch (yr hwn sydd yn wastad i gael ei ystyried yn myned trwy ganol y bellen) tua'r rhan o hono sydd ar eich llaw chwith. Rhaid i chwi ystyried fod y *wall o hyd y'mhob sefyllfa yn y cylch yn gyfochrog iddi ei hunan*, neu fel y dywedir yn Saesneg, *parallel to itself*. Meddyliwch fod y bellen wedi cyrhaeddyd i haner ochr chwith y cylch. Yma gwelwch fod goleu y ganwyll yn tywynu ar haner y bellen fel o'r blaen, ond i fod ymylon y goleuni yn pasio yn gymmwys trwy y ddau begwn. Mae yn hawdd deall yn awr fod haner y ddacar o begwn i begwn yn y goleu, ac i fod cylch y dydd a'i gylch cyferbyniol y nos yr un hyd, hyny yw, fod yr haul yn gofyn yr un faint o amser y'mhob man o'r ddacar i fyned trwy un rhan o'r cylch ag a ofyna i fyned trwy y rhan gyferbyniol iddo. Am hyny rhaid fod dydd a nos y pryd hwn yr un hyd dros wyneb yr holl ddacar. Dyma sefyllfa y ddacar ar yr unfed ar hugain o Fedi.

Meddyliwch eto fod y bellen yn symud ar hyd y cylch a'r wall *o hyd yn gyfochrog iddi ei hun*, nes y cyrhaeddo y rhan o'r cylch sydd nesaf atoch. Chwi welwch yma fod pen y wall ag oedd ar yr 21 o Fehefin yn y goleu yn awr yn y tywyllwch, a'r pen ag oedd y pryd hwnw yn y tywyllwch yn awr yn y goleu. Mae y rhan sydd yn dywyll yn y gogledd yn llawer mwy na'r rhan sydd yn oleu, o ganlyniad, mae'r nos yn hwy na'r dydd yn y gogledd, a'r dydd yn hwy na'r nos yn y de. Dyma sefyllfa y ddacar ar yr 21 o Ragfyr. Chwi welwch er fod

yr oerfel yn fwy, fod y ddaear yn nes at yr haul, neu y bellen yn nes at y ganwyll, ond mae y'mhell yn y de, ac am hyny nid yw ei belydrau yn disgyn arnom yn syth fel yn yr haf.

Yn awr, ni symudwn y bellen eto o'r man hwn i haner dde y cylch. Chwi welwch ei bod yn yr un sefyllfa yn gymmwys ag oedd yn y man cyferbyniol ar yr ochr chwith iddo, o ganlyniad, mae dydd a nos, fel y pryd hwnw, yr un hyd. Dyma sefyllfa y ddaear ar yr 21 o Fawrth, ac y mae'r dydd yn rhwym o ymestyn yn raddol fel y byddo y parthau gogleddol yn dyfod fwy i'r goleu. Y man nesaf fydd y pen pellaf o'r cylch, sef yr 21 o Fehefin, neu y man y dechreuasom ein taith flynyddol.

Yn awr yr ydych yn deall yr achos o dymhorau y flwyddyn. Os nad ydych, a'ch bod am ddeall, rhaid i chwi fyned trwy yr un *process*, nes y byddoch wedi gorchfygu yr anhawsder. Dyma'r unig ffordd mae cyrhaeddyd gwybodaeth, beth bynag fyddo ei nhatur. Ymdrech sydd yn gorchfygu pob anhawsderau yn y byd hwn. Nid yw gwybodaeth i'w chael heb ymdrech, ac ymdrech caled. Ddarllenydd, gwna dy hun yn feistr ar y wers hon, fel y byddi yn barotach i dderbyn yr un nesaf.

Gofyniadau ac Atebion.

W. T.—Yr ydych am gael ein barn ar y *game laws*. Os yw yn rhywbeth o werth, ein barn ni am y *game* yw, mai eiddo y ffermwr ydyw, oni fydd cytundeb rhyngddo a pherchen y fferm. Pell ydym ni o gymeradwyo y *game laws*, y rhai a achosant lawer o ymladd a ddiwedda nid yn anfynych yn angeuol. Ar yr un pryd nis gallwn lai na chredu fod yn llawer mwy o golled nac o enill i weithiwr o fyned yn *boacher*. Heblaw y perygl o ddirwy a charchar, mae *poachan* yn dwyn amser, ac yn arwain i segurdod, oferedd, a thylodi. Nid oes ammheuaeth nad yw *game* yn llawer o fanau yn gwneyd colled dirfawr i ffermwyr yn ystod y flwyddyn. Dywedir fod wyth cwningen yn pori cymmaint ag un ddafad. Meddyliwch fod wyth ugain o honynt yn pori ar fferm yn y flwyddyn, heblaw ysgyfarnogod, hwy ddifant gymmaint o borfa â deg dafad, ac nid colled bach yw hyny i ffermwr yn gorfod talu trethi a rhent trwm. Nid rhyfedd fod ffermwyr yn achwyn o achos y *game*. Mae perchenogion tiroedd wedi myned i wneyd masnach o'r *game* yn awr. Bu amser pan yr oeddynt yn ei rhanu rhwng y deiliaid, wedi iddynt hwy gael y difyrwch o'i saethu, ond yn awr, grogi gwningen a roddant i neb. Maent i gyd yn cael eu danfon i'r *game dealer*. Dywedodd un wrthym fod llwythi yn cael eu danfon iddo ef bob blwyddyn gan berchenogion tiroedd, ac am y pris uchelaf hefyd. Tra fyddo tirfeistri yn wneuthurwyr y gyfraith, nid oes fawr obaith cael gwared o'r *game laws*. Y peth gynghorem ni i bob ffermwr yw ymdrechu prynu fferm. Os nad all grafu digon i dalu am dani, cac fenthyg y gweddill am bris rhesymol, ac amser idd eu talu yn ol fel y

gallai. Mae yn dda genym weled fod ffermwyr Cymru yn deehreu agor eu llygaid ar y pen hwn. Maent wedi bod yn slafiaid yn ddigon hir.

ANWYBODUS.—Yr ydych yn gofyn, Paham y mae calch yn dda i dir? Mae calch yn naturiol y'mhob tir, ond mewn rhai tiroedd yn fwy na'u gilydd. Mae calch yn nghyfansoddiad pob creadur. Calch yw prif sylwedd esgyrn. O ganlyniad rhaid fod calch yn ymborth pob creadur, onide, ni allai fyw. Mae calch yn nghyfansoddiad pob glaswelltyn sy'n tyfu—pob math o lafur; mewn gair, i raddau mwy neu lai y'mhob llysieuyn. O bob erw o dir mae gwenith yn tynu o ddeuddeg i bedwar pwys ar ddeg o galch, ceirch ddau bwys ar bymtheg, erfin cant a deunaw pwys, a chloron bedwar pwys. Mae calch hefyd yn symud surni yn y tir. Rhoddwch galch i haner cae o dir a dim i'r haner arall. Trowch anifeiliaid i mewn i bori. Chwi gewch weled yn dra buan pwy ran o'r cae ddewisant. Mae calch yn melusu'r borfa, ac yn peri i'r gwartheg roddi mwy a brasach llaeth. Nid oes un achles yn fwy angenrheidiol i dir na chalch, nac yn talu yn well i'r ffermwr. Tolio calch yw llwmhau ei laethdu a'i ydlan.

Gan fod derbynwyr yr YMOFYNYDD yn ddyledus iawn iddo yn ddiweddar am lawer o oleuni maent yn gael ar yr Ysgrythyrau, a fyddwch chwi cystal a rhoddi eich barn ar Heb. vii. 25? Bydd llawer yn ddiolchgar i chwi heblaw eich cyson ddarllenydd,—D. ENOCK.

Mae gwr a gwraig yn y gymydogaeth hon, swm oedran y rhai yw 80. Ugain mlynedd yn ol yr oedd oedran y wraig yn ddwy ran o dair o oedran y gwr. Pwy o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD ddywed wrthym beth yw eu hoedran?

GARDDWRIAETH Y BWTHYN.

(PARHAD O TUDAL. 90.)

37. Mân Genin, Cenin Pedr, Cenin Syfi (*cives or chives*). Y mae y rhai yma yn adnabyddus fel rhai meinion, ac iddynt gyrs crynion fel i'r rhai olaf a nodais, ac fel hwythau, ydynt lysiau gwanwyn yn benaf. Ni welais i erioed eu codi oddiwrth hadau, er yn ddiau y gellid eu codi felly, oblegid y maent yn hadu. Yn llwyni ar ymylau y gwelyau y cedwir hwy fynychaf. Er mai cenin y gelwir genym, myn rhai mai math o wynwyn bychaiu ydynt, a lle byddo prinder wynwyn gauaf gellir codi gwreiddiau y cenin syfi er eu defnyddio yn eu lle. Yr arfer gyffredin yw codi y llwyni, wrth ddodi yr ardd, yn Mawrth neu Ebrill, a'u rhanu yn ddyrneidiau bychain, y rhai a ddeuant yn gryn lwyni cyn y gauaf. Ond, os mynir eu cael i'w bwyta yn gynar, planer hwy yn yr hydref, yn dyffiau o chwech neu wyth, o wyth i ddeg modfedd rhwng pob twffyn a'r llall, naill ai ar yr ymylon (*borders*), neu mewn llathen o dir ar eu penau eu hunain.

Deuant i fyny yn gynar yn y gwanwyn, a gellir eu tynu o'r gwreiddiau er eu bwyta, neu yn unig dori eu brigau at eu berwi neu eu *ffreio*.

Byddant fyw am lawer o flynyddoedd wrth eu gadael yn yr un man, a dim ond eu tocio yn yr haf; ond gwastraff yw hyny. Dylid eu rhanu fel y byddont yn lluosogi.

38. Sibwl—Wynwyn Cymreig (*Ceboul or Welsh Onions*). Yr unig wahaniaeth rhwng y sibwl a'r wynwyn yw, nad yw y blaenaf byth yn magu crwnwraidd (*bulb*), ac felly defnyddir hwynt fel addail, neu lysiau cawl yn y gwanwyn a'r haf.

At eu cael yn gynar, hauer yn mis Awst, a gadawer hwy yn y tir dros y gauaf. At gyflenwad haf, hauer yr un pryd a'r cenin.

39. Corwynwyn (*Shalots*). Math o wynwyn yw y rhai hyn, y rhai a luosogant trwy ymranu yn y gwreiddiau; bydd yr un sengl a blaner eleni yn bedwar neu chwech erbyn y flwyddyn nesaf. Os mynwch gael cnwd toreithiog, planwch y rhai mwyaf, oblegid os dodwch y rhai bychain, fe allai mai dim ond dyfod yn fwy o faintioli a wnant y flwyddyn gyntaf, ac nid lluosogi mewn rhif.

Y mae rhai am eu planu yn Hydref neu Tachwedd. Gwnewch felly os bydd eich tir yn sych, ond os tir gwlybaidd fydd, planwch mor gynar yn Chwefror ag y caffoch y pridd yn dymherus. Y mae dau fath o honynt, sef y rhai cyffredin, a'r rhai a eilw y Sais, *Long Keeping* (cadw yn hir). Y mae dail yr olaf yn fyrach, y gwreiddiau yn fwy, a chadwant yn hwy yn y ty cyn egino i ddiffrwythder. Planer hwy mewn tir gweddol sych, wedi ei drin a'i wrteithio yn dda, yn rhesi chwech neu wyth modfedd oddiwrth eu gilydd, a'r planhigion bedair neu chwech modfedd o leiaf oddiwrth eu gilydd yn y rhesi.

Gwasgwch bob wynwynyn i'r pridd, a gwasgwch y pridd ato a'ch dau fys, onide, buan y cewch ei weled yn noeth ar wyneb y tir, fel plentyn wedi taflu ei ddillad oddiarno yn ei wely.

Defnyddiwch y chwyngaib i ryddhau y tir rhyngddynt trwy yr haf, ac i gadw y chwyn ymaith. Ar waith y gwreiddiau yn ymledu, tynwch bob pridd oddiwrthynt, yn hytrach na throi atynt.

Pan grino y gwrysg, tynwch y gwreiddiau, gadewch yn yr haul am ddiwrnod neu ddau i sychu, ac yna dodwch hwy i'w cadw mewn lle sych, tywyll yn y ty.

Rhai *yn iawn* at eu cyffeithio yw y *Shalots*. Dewiswch y rhai manaf at hyny, a chedwch y rhai mwyaf at had, ac at wasanaeth cyffredin y teulu.

Cofnodion Bywgraphyl.

Y Parch. Thomas Evans, Gweinidog yr Undodiaid gynt yn Aberdâr, 1766—1833.

Un oedd gwrthrych y papuryn hwn a ddyoddefodd nid ychydig o wawd a dirmyg o herwydd ei syniadau crefyddol—mwy na neb o'i gyfoedion Undodaidd yn Nghymru. Ganwyd ef yn 1766 yn lle a elwir Capel Sant Silin yn agos i Brechfa yn Swydd Gaerfyrddin. Ni chafodd ragor o fanteision gwybodaeth nac ychydig o ysgol yn y gymydogaeth pan yn ieuanc. Yr oedd yn un a sychedai yn fawr am ddysgeidiaeth ac wedi derbyn cynheddfau cryfach na'r cyffredin. Trwy ymdrech a diwydrwydd diflin daeth i ddeall Cymraeg a Saesneg yn dda—nemawr o ddynion cyffredin yn well. Wedi myned unwaith trwy'r drws, sef iaith Lloegr, gwnaeth gynydd cyflym mewn llawer o wybodau, yn enwedig duwinyddiaeth a llywod-ddysg, o'r rhai yr oedd yn wastad yn hoff iawn. Yr oedd yn darllen hyd yn nod pan wrth ei waith. Nid oedd y llyfr byth y'mhell iawn oddiwrth y wenol, oblegid gweydd ydoedd wrth

ei alwad. Dywedir ei fod yn dra hoff o ysgrifeniadau Doctor Priestley, ac mai ei draethawd ar angenrheidrwydd fu yn foddion i'w wneyd yn Undodwr. Nid oes dim amheuaeth na chafodd lawer o oleuni yn ngwaith Priestley, ond yr oedd ei dad o'i flaen yn tueddu yn gryf at Undodiaeth—yr Undodwr cyntaf, medd rhai, yn y gymydogaeth. Yr unig addoliad Undodaidd nesaf i'w gartref oedd Capel-y-groes, ger Llanwnen, ac yno y teithiodd lawer gwaith ar bob tywydd i gydaddoli a'i frodyr yn y ffydd.

Wedi iddo gael cyflawn adnabyddiaeth ar egwyddorion Undodaidd, teimlodd yn ddyledswydd arno nid yn unig eu mwynhau ei hunan, ond i ymdrechu eu gwneyd yn adnabyddus i eraill. Dechreuodd, gan hyny, bregethu pan oedd oddeutu ugain oed. Ei dy cwrdd oedd ty ei dad. Deuai llawer y'nghyd i'w wrando, oblegid yr oedd Undodiaeth y pryd hyny yn beth newydd i ddynion. Wedi diweddu y cwrdd nid yn anfynych y ceid dadl frwd. Y canlyniad fu i lawer yn y gymydogaeth lyncu yr athrawiaeth, ac yn eu plith yr oedd ei frawd Rhys a'i lysfam. Dyma ddechreuad Undodiaid Brechfa, lle y mae'r athrawiaeth wedi gwreiddio yn dra dwfn. Oddiar hyny byth mae yn Brechfa ddynion parchus a chyfrifol yn ei dal ac yn ei hamddiffyn. Mae y rhan fwyaf yn awr o gyfoedion Mr. Evans, yn wir, fel yntau, wedi huno, ond y mae eraill wedi cyfodi i fyny yn eu lle, ac y mae ganddynt yn awr dy addoliad yn y Cwmmwrdu. Trwy ymdrechion y diweddar Barch. William Rees, gynt o Lainoleu, y cyfodwyd y ty gyntaf, ond y mae yn awr wedi cael ei ailadeiladu. Bydded i'r gynulleidfa fechan deilyngu llwyddiant trwy sel, ymdrech, ac ymddygiad a wedd i'w hegwyddorion.

Nid hir hefyd y bu gwrthrych ein ysgrifen cyn cymeryd rhan yn nadleuon ei oes, p'un ai crefyddol ai gwladgarol. Fel ei dafod, nid oedd neb a fedrai handlo ei scrifell yn well, nac yn fwy effeithiol. Yr oedd yn gwybod gwerth y wasg yn rhy dda i gymeryd ei anog i ysgrifenu. Un tafod sydd gan ddyn, ond mae y wasg yn ei wneyd yn gyfartal i fil, ac weithiau i lawer mwy. Nid oedd neb a wyddai hyn yn well na Mr. Evans. Nid oes dim amheuaeth genym nad yw Cymru y dydd heddyw yn ddyledus iddo i raddau am ei rhyddfrydiaeth. Fel amryw eraill o'i gyfoedion, ymladdodd yn ddewr yn erbyn galluoedd y fagddu, ac nid yn hollol ddilwyddiant. Yr ydym ni yn yr oes hon yn medi o ffrwyth eu llafur.

Yr oedd Mr. Evans hefyd yn fardd rhagorol a chwrteithiai yr Awen gyda llawer o ddyfalwch. Heblaw ei gyfansoddiadau barddonol ag sydd o flaen y cyhoedd, dywedir fod dros gant o ysgrifau yn y peth a alwai ei *Gell Gymysg*, gan nad yn meddiant pwy y mae yn awr, oblegid nid oes neb wedi bod mor Fandalaidd a'i distrywio. A barnu wrth yr hyn a wyddom, mae yn y *Gell* yn sicr lawer o bethau buddiol a difyr, pe caent weled haul a llygad goleuni.

Yn y flwyddyn 1789, fel y gwyr llawer, siglwyd holl Ewrop gan chwildroad Ffrainc. Teimlwyd ei effaith yn y wlad hon, fel mewn gwledydd cyfandirol, a mawr fu'r cynwrf a'r berw yma dros y deng mlynedd canlynol. Yr amser hwnw yr oedd yr Eglwys Sefydledig a Thoriaeth yn eu llawn rodres. Eu dyrnau celyd a ddisgynent yn drom ar wàrau y

sawl a feiddient yngan gair yn eu herbyn, er hyny braidd y gallasent gadw i lawr egwyddorion rhyddid. Yr amser hwnw hefyd y cyhoeddodd Tom Paine ei *Rights of Man*—llyfr dychrynllyd i'r Toriaid a'r offeiriaid. Gwnawd ei werthu yn *act* o drosedd yn erbyn y llywydraeth. Llosgwyd ef yn llawer tref gan y *public Hangman.* Cospid pwy bynag a'i cadwai yn ei dy, os y ceid gafael ynddo. Yr oedd *informers* y'mhob cwr o'r wlad. Llygadruthrent, yn enwedig yn ffenestri llyfrwerthwyr, am y *Rights of Man.* Dyma'r pryd y gosododd Iolo Morganwg Destament yn ei ffenestr yn Pontfân, yn brintiedig ar ei gefn, *The Rights of Man.* Ni bu yn hir yno cyn i ryw ddyhiryn ei ganfod a'i brynu yn y fath frys fel yr anghofiodd edrych ynddo nes oedd getyn o ffordd oddiwrth y ty, a hyny o lawenydd ei fod wedi llwyddo i ddala yr hen Iolo, yr hwn, er hyny, oedd yn rhy gyfrwys, oblegid pan edrychodd yn y llyfr, wele, nid y *Rights of Man* oedd ganddo, ond y Testament Newydd! Dychwelodd yn ei ol a'i anadl yn ei wddf, a gofynodd yn sarug i'r hen walch a'r gwallt hir tu cefn i'r *counter*, paham y gwerthodd iddo Destament yn lle y *Rights of Man?* "*Rights* pwy ydyw," ebe'r hen Iolo, "os nad *Rights of Man?* Ewch allan, y dyhiryn brwnt." Yr oedd pob gweinidog Anghydffurfiol hefyd yn cael ei wylied, a'i lythyron eu darllen yn y *post.*

Nid oes eisiau sylwi fod teimlad Mr. Evans, fel teimlad Iolo a llawer eraill yn Nghymru gyda'r Rhyddfrydwyr; felly hefyd ei dafod, a'i ysgrifell, er maint y perygl. Yn awr, dyn cyfeillgar oedd Mr. Evans, a phawb yn ei gymydogaeth yn ffrynd iddo er ei fod yn *heretic* y'ngolwg llawer. Lle bynag y byddai "Cwrw bach" yn y gymydogaeth, yr oedd Mr. Evans yn sicr o fod yno, nid er mwyn y cwrw ddim, oblegid nid oedd sobrach dyn i'w gael, ond er mwyn cefnogi y tlawd. Yn un o'r cyfarfodydd nosol hyn ceisiwyd ganddo ganu, oblegid nid oedd neb a fedrai yn well, nac yn meddu gwell llais. Cydsyniodd Mr. Evans â'r cais, ac yr oedd pawb yn yr ystafell yn llawen, ac yn mwynhau y digrifwch diniwed. Mae yn debyg i ryw un oedd yno, ac yn cytuno yn y digrifwch, geisio gan Mr. Evans ganu rhyw gân ag oedd yn waharddedig. Cydsyniodd a'r cais hwnw hefyd, oblegid pwy allasai feddwl fod yno fradwr yn eu plith? Ond beth bynag, y'mhen ychydig ddiwrnodau dyma *summons* iddo i ymddangos o flaen yr ynadon am ganu y gân waharddedig mewn "cwrw bach," a'r diwedd fu iddo gael ei ddedfrydu i ddwy flynedd o garchar a'i osod yn y rhigod, neu y "pilwri," fel ei gelwid. Y rhan hon o'r ddedfryd a gyflawnwyd, mae'n debyg, yn Heol-y-prior, ac wrth gwrs, daeth tyrfa fawr y'nghyd i weled "dyn yn y pilwri," ac yr oedd rhyddid i'w luchio â phob budreddi; ond, er clod i bobl Caerfyrddin, ni chynygodd neb wneyd y fath beth, ond un fenyw, a gorfu arni ffoi yn dra buan.

Ar ddiwedd y ddwy flynedd, dychwelodd adref mor benderfynol ag erioed i ymladd brwydr rhyddid. Cymerodd at ei alwedigaeth dynhorol fel o'r blaen, a rhwng ysgrifenu, pregethu, a gwëu, yr oedd yn wastad mewn llawn gwaith. Yn y flwyddyn 1813, derbyniodd alwad gan eglwys Heol-y-felin, Aberdâr, i gymeryd gofal o honi fel gweinidog, a symudodd yno yn ystod y flwyddyn, ac yno y terfynodd ei yrfa ddaearol ar y 29ain o Ionawr, 1833, yn 73 oed. Claddwyd ef

yn mynwent y Capel, lle y mae cof-faen hardd i'w goffadwriaeth. Yr oedd ei weinidogaeth yn dra derbyniol gan y gynulleidfa, ac y mae ei enw yn barchus yno hyd y dydd heddyw.

(I'w ddiweddu yn y nesaf.)

Hanesion.

Bwrdd Claddu Kingston-on-Thames.—Mae offeiriaid y lle wedi gwrthod darllen y gladdedigaeth uwch beddau y tylodion am ddim. Ysgrifenodd y bwrdd at yr Esgob, yr hwn yn ei atebiad sydd yn cymeradwyo ymddygiad yr offeiriaid. Onid yw hyn yn gwirio yr hen ddywediad. "Dim tal, dim gweddi?" Ychydig yw'r offeiriaid, fel y cyfreithwyr, a wnant lawer am ddim.

Mr. Miall,—Mae Awdurdodau yr Eglwys Sefydledig yn dra esmwyth y'nghylch cynyg dyfodol Mr. Miall yn y Senedd i ddadsefydlu eu heglwys, ac yn parotoi eu grym i'w gwrthwynebu. Gellir bod yn sicr fod yma ddifrifoldeb, oblegid mae'r "bara a chaws" mewn perygl.

Mr. Voysey.—Bu yn darlithio ar y 13eg o Ebrill yn nhy cwrdd yr Undodiaid yn Glasgow ar Rydd-dybiaeth *(Rationalism)*, ac nid bychan fu y cyffroad a achosodd. Y Sul canlynol, pregethodd yn yr un lle yr hwn oedd yn llawer rhy fach i gynwys y dyrfa ddaeth y'nghyd. Dywedir mai bwriad Mr. Voysey yw, nid uno a'r enwad Undodaidd, ond sefydlu eglwys rydd ei hunan yn annibynol ar bob enwad. Mae yn ymddwyn yn gall. Ychydig o'r fath, wedi tori i maes o'r hen buarth, y sydd, nad ydynt, y'mwyniant eu rhyddid, yn carlamu tros derfynau egwyddorion sylfaenol Crist'nogaeth.

Anffaeledigrwydd y Pab.—Wrth bob tebygolrwydd yn bresenol mae rhwygiad ar fin cymeryd lle yn yr Eglwys Babaidd o achos i'r Cynghor Oecumenaidd gadarnhau honiad y Pab, sef ei fod yn anffaeledig fel pen yr Eglwys. Pwnc ydyw na chredir gan ond ychydig o Babyddion yr Allmaen, y rhai a flaenorir gan Doctor Döllinger, Athraw Duwinyddol Pabaidd yn Munich. Dywedir fod y Pab wedi danfon gorchymyn i Archesgob Munich i'w esgymuno os na rodda i fyny wrthwynebu y pwnc, ac i fod brenin Bavaria o'r ochr arall yn tueddu i amddiffyn y Doctor. Mae Cynghor i ymgynull yn Fulda i gymeryd y peth dan ystyriaeth. Os yw y Doctor mor benderfynol dyn ag oedd Luther, ac os y cymer y llywodraeth ei ran, mae rhwygiad prysur yn anocheladwy.

Cospi am gabledd yn erbyn y Beibl.—Gallesid meddwl ein bod wedi gweled diwedd ar hyn ys blynyddoedd lawer, ond mae yn debyg nad ydym, yn enwedig yn Awstralia. Yn ol yr hanes ydym wedi newydd weled yn y *Daily News*, ymddengys i un o'r enw William Lorando

Jones, gael ei ddedfrydu ar y 18fed o Fis bach diweddaf gan y barnwr Simpson i ddwy flynedd o garchar yn Parramatta, tref fechan, bymtheg milldir o Sydney. Ei drosedd oedd dyweyd mewn lle cyhoeddus "mai llyfr anfoesol yw y Beibl i'w osod yn nwylaw menywod a phlant," ac "mai lysbeiliwr a mwrddwr oedd Moses, a hen adyn creulon." Siaradodd yr un mor ddiystyrllyd am nodweddiadau eraill yn y Beibl, ond dywedir iddo ddyweyd yn barchus am Dduw a sylwi am Iesu Grist mai "dyn da oedd." Mae yn y ddedfryd hefyd iddo gael ei osod i galedwaith yn y carchar, ac ar ddiwedd ei amser i dalu can' punt o ddirwy! Yn wir, nis gallwn adrodd y fath ddedfryd heb deimlo syndod a chywilydd. Sylwodd y Barnwr mai ei fwriad yn cyhoeddi y fath ddedfryd oedd "rhwystro anffyddiaeth." Mae wedi camsynied y ffordd. I wneyd hyny yn effeithiol, y ffordd oreu yw ceisio rhoddi golygiadau iawn i ddynion y'nghylch gwir ddyben y Beibl, a gadael i bawb ar yr un pryd i siarad ac ysgrifenu yn ei gylch fel y byddont yn dewis. Ymddengys fod amryw gyfarfodydd wedi cael eu cadw yno i ystyried y ddedfryd. Gofynodd Mr. Pillars, y gweinidog Undodaidd yn Sydney, i'w gynulleidfa, "Paham yr oedd efe yn rhydd a Mr. Jones yn ngharchar?" gan feddwl yn ddiau fod yr un egwyddor erledigaethus mor gymhwysiadol iddo yntau, oblegid anhawdd genym feddwl fod un gweinidog Undodaidd mor anwybodus a chymeradwyo siarad disynwyr Mr. Jones y'nghylch y Beibl. Gobeithio ydym y bydd i'r Weinyddiaeth Gartrefol gyfryngu yn ddioed yn y peth, ac ysgubo ymaith ar unwaith y fath waradwydd ag yw y ddedfryd ar ein hoes a'n cenedl.

Beirniadaeth.

Hanes Eglwysi Annibynol Cymru, gan T. Rees, D.D., Abertawy; a J. Thomas, Liverpool. Rhan I.

Mae hwn yn debyg o fod yn lyfr tra dyddorol a gwerthfawr yn gymmaint ag mai bwriad yr awdwyr yw dwyn i'r amlwg a chadw rhag abergofiant hanes eglwysi Annibynol Cymru, mor belled ag y mae hyny yn ddichonadwy. Pe gwnelai Enwadau eraill yr un peth byddai yn dda. Cesglid y'nghyd drysorfa o ffeithiau a fyddent ryw ddydd yn ddefnyddiol tuag at gyfansoddi hanes cyflawnach a chywirach na sy genym eto o Anghydffurfiaeth yn Nghymru yn ystod y ddau ganrif diweddaf—gwaith ag sydd eisiau ei wneyd. Mewn cyfansoddiadau o'r natur hyn, anhawdd yw cael awdwyr hollol ddiragfarn gyda golwg ar enwadau eraill, ac yn cymeryd eu tywys yn eu sylwadau a'u casgliadau gan ffeithiau yn unig, a hyny yn ddiduedd. Ymddengys i ni fod awdwyr y llyfr hwn yn meddu ar y fath gymhwysderau at y gwaith, a'u bod hefyd yn dra phwyllog a gofalus gyda golwg ar awdurdod yr hanes a osodant o flaen y darllenydd. Dymunwn iddynt bob llwyddiant gan obeithio y cant gynhorthwy tuag at ddwyn i'r amlwg yr hanes ellir

gael o barthed i bob hen gynulleidfa, ac y cant yr anogaeth a deilyngant i orphen y gwaith. Yr ydym yn edrych y'mlaen gyda phleser at gyhoeddiad yr ail ran.

Ein Heglwysi.

Cyfarfod Cwarterol y Pasg.—Cynhaliwyd hwn eleni yn Ciliau Ayron, Sir Aberteifi, ar y 12fed a'r 13eg o Ebrill. Prydnawn dydd Mercher am chwech dechreuwyd y cwrdd gan Mr. George Evans, o Goleg Caerfyrddin, a phregethodd Mr. Walter Jenkins, o'r un Coleg, oddiwrth 1 Pedr iii. 15; a'r Parch. John Evans, Gellionen, oddiwrth Ioan vii. 37. Dydd Iau am ddeg cyflawnwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, a phregethodd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, oddiwrth 1 Pedr i. 18, 19. Ar ol y bregeth siaradwyd ar y pwnc gan Mr. David Davies, y Parch. T. Thomas, a Professor Evans, Caerfyrddin. Triniwyd y pwnc yn dda. Cytunai y llefarwyr mai peth naturiol i ddyn yw gweddi, nad yw yn cyfnewid dybenion Duw tuag ato, ond i fod agoshau at Dduw mewn gweddi yn arwydd ein bod yn teimlo ein hymddibyniad arno, ac yn chwenych ymostwng y'mhob amgylchiad bywyd i'r ewyllys nefol. Dechreuwyd y gwasanaeth yn y prydnawn gan y Parch. J. Davies, Alltyblaca, a phregethodd Mr. William James, Camnantfach, ac yn ddiweddar o *Manchester New College*; testyn, Matt. v. 48; a Professor Evans ar ei ol, oddiar 2 Tim. iii. 13, 14. Cafwyd cyfarfod dymunol, pregethau da, gwrandawiad astud, a chynulliad lluosog. Dangosodd amryw yn y gymydogaeth, na pherthynent i'r gynulleidfa, barodrwydd i gynorthwyo ar yr achlysur, a theimla y gynulleidfa yn ddiolchgar iddynt am eu caredigrwydd. Mae y Cwrdd blynyddol i fod yn Alltyblaca, a'r Parch. I. T. Williams i draddodi y bregeth. Y pwnc yw, "A ydyw y drychfeddwl am berson Crist yn Efengyl Ioan yn wahanol i'r hyn ydyw yn Matthew, Marc, a Luc?"

Llundain: Undeb y Pregethu Lleygol Undodaidd.—Cynhaliwyd yr Undeb yn nghapel Stamford-street, ar y 5ed o Ebrill. Yr oedd yn bresenol amrywiol weinidogion, yn eu plith, y Parch. R. Spears a'r Parch. R. R. Suffield, yr hwn oedd ychydig yn ol yn offeiriad Pabaidd. Yr oedd yno hefyd y Meistri Towns, Gilham, Stannus, Thomson, N. M. Tayler, &c. Cynygwyd gan y Parch. R. R. Suffield fod i'r Undeb hurio eisteddlysoedd mewn gwahanol barthau o Lundain i gadw cyfarfodydd er mwyn egluro egwyddorion Undodiaid Crist'nogol i'r trigolion. Gohiriwyd y peth hyd y cyfarfod nesaf. Hysbysodd yr ysgrifenydd fod 35,000 o draethodau athrawiaethol da wedi cael eu gwasgaru o ddrws i ddrws trwy y tymhor.

Llundain: Y Gymdeithas Undodaidd Ardalog.—Cynhaliodd hon ei Chyfarfod Cwarterol ar y 3ydd o Ebrill. Hysbysodd yr ysgrifenydd i'r gwyddfodolion i Mr. Challis ac eraill anrhegu y Gymdeithas a rhoddion gwerthfawr. Cytunwyd fod i'r Cyfarfod blynyddol gael ei gynal dydd Mercher yn wythnos y Sulgwyn yn Radley's Hotel. Pleidleisiwyd 25p. at gynorthwyo y cyfeillion yn Mile-end i barotoi yr eisteddlys ydynt wedi hurio at bregethu.

Brystau.—Cynhaliodd yr Undeb Lleygol Undodaidd a sefydlwyd mis Medi diweddaf, ei gwyl de goffadwriaethol cyntaf dydd Llun Pasg, pryd yr oedd 150 o bersonau yn bresenol. Y Parch. W. James yn y gadair. Anerchwyd y cyfarfod gan y Parchedigion William Hargrave, B.A., Oakfield Church Road, Clifton; A. N. Blatchford, B.A., Lewin's Mead; J. Ferrar, B.A., i'r hwn y rhoddodd y cadeirydd fel y gweinidog hynaf ddeheulaw Cymdeithas. Darllenodd yr Ysgrifenydd anrhydeddus fynegiad y Gymdeithas o'i dechreuad, a derbyniwyd amryw aelodau newydd.

Lle'rpwl.—Ar y 4ydd o Ebrill, cynhaliodd Cymdeithas Athrawon Ysgol Sul Ardalog Lle'rpwl ei chyfarfod hwyrol blynyddol yn Ysgoldai Hope-street. Yn

bresenol y Parchedigion C. Beard, Alex. Gordon, a Wm. Binns, a'r Meistri T. C. Bowring a G. Gill. Areithiwyd llawer, a threuliwyd yr amser yn adeiladol.

Amrywiol Lefydd.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Undodaidd neillduol yn Battle, Ditchling, Rochdale, Manchester, Stannington, Gloucester, Dudley, Middlesbrough, Middleton, Newchurch, ac amrywiol fanau eraill, yn ystod mis Ebrill diweddaf.

Y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor.—Cyfarfu y Pwyllgor ar yr 11eg o Ebrill. Wedi trafod amrywiol o bethau perthynol i'r Gymdeithas, dywedodd yr Ysgrifenydd y byddai yr argraphwyr wedi dechreu ar Lygredigaethau Crist'nogrwydd, gan Priestley, cyn y cyfarfod nesaf, ac i fod Undodiaid Transylvania yn awr wedi gorphen cyfieithu gwaith Dr. Channing i iaith Hungari.

Y Senedd.

Y mae llawer o wirionedd yn yr hen ddywediad fod amgylchiadau pwysig yn taflu eu cysgod o'u blaen, ac yn sicr nid ydyw sefyllfa wleidyddol Lloegr yn bresenol, er wedi gwella llawer yn ddiweddar, ac yn parhau i ddiwygio, ond cysgod gwan o'r hyn y mae i gyrhaedd rhyw ddydd, a hwnw, ni a obeithiwn, ddim yn neppell. Y mae cyfnewidiadau dirfawr wedi cymeryd lle yn meddyliau ein gwleidyddwyr yn ystod y blynyddoedd diweddaf, a hyny o ganlyniad i argyhoeddiadau y wlad, a'r sawl a'i cynrychiolant. Deugain mlynedd yn ol buasai son am fesurau sydd eisioes wedi pasio dan y Weinyddiaeth bresenol, a rhai sydd yn awr o flaen y Ty, yn destyn gwawd a dirmyg Toriaeth ofnus a Whigiaeth ochelgar a iawnffyddiog, ac edrychid ar neb a feiddiai eu pleidio fel chwyldroadyn penboeth a pheryglus; ond mae y wlad yn araf ddiwygio, a rhaid i'n deddf-wneuthurwyr ddilyn y llifeiriant, sefyll y tu blaen y frwydr neu gilio o'r neilldu. Y mae hyd yn nod llys uchaf y deyrnas, lle eistedda esgobion, cynrychiolwyr a gweddillion yr hen dreiswyr gynt—dynion o ddysg a thalent digyffelyb yn ddiamheu, ond rhai sy wedi ei magu a byw ar foethau breision yr hen Eglwys, o yspryd cul, crabachlyd, bydol—dynion sydd yn dychrynu wrth ganfod arwyddion yr amserau, a dyrchafiad y werin mewn gwybodaeth a dysg—dynion sydd yn barod i ymladd hyd angau dros gynal i fyny yr hen gyfundrefn sydd wedi gweini iddynt hwy fyrddeidiau danteithiol a moethus, a bywydau o segurdod a mwyniant; ond cyfundrefn sydd wedi hollol fethu cyflawnu ei ddyledswydd drwy y canrifoedd, fel un i ddiwallu angenrheidiau ysprydol y genedl, ac sydd erbyn heddyw yn warth, sarhad, ac attalfa ar grefydd. Ydynt, ddarllenydd, mae hyd yn nod y dynion hyn yn cael eu symbylu heddyw i waith ac ymdrech, er mwyn cynal i fyny yr hen sefydliad cyhyd ag y medront, canys canfyddant yn eglur fod dyddiau cysylltiad crefydd a'r wladwriaeth wedi eu rhifo, ac nad yw ei hysgariad ond yn unig cwestiwn o amser. Y'ngwyneb hyn, ymegniant i effeithio unrhyw ddiwygiadau a gredant fydd yn foddion i ohirio dydd y dad-gysylltiad, a gwneyd yr hen drefn ychydig yn fwy derbyniol gan y genedl. Er hyny, aros ei thynged yr un. Cydraddoldeb crefyddol yw ein nod, ac nis gorphwyswn hyd onis cawn. Pwnc a gynhyrfodd ddadl fywiog a brwd yn mysg eu Harglwyddi yn ddiweddar oedd gwelliant y Llyfr Gweddi Cyffredin—llyfr a gynwys lawer o dda, ffrwyth rhai o feddyliau duwiolaf a choethaf yr oesau aethant heibio. Parch iddynt a'u coffadwriaeth, gwnaethant ddirfawr les yn eu dydd, ond y mae eu dylanwad wedi treio. Cynwys y Llyfr hefyd gredoau ac erthyglau ffydd a synant ddyn fod neb yn meddiant o'i bwyll a'i synwyr mor gibddall a'u coleddu am eiliad. Dadleuwyd yn

dwym y'nghylch ysgymuniad Credo St. Athanasius, credo a gyfaddefai un o'r Arglwyddi yn onest na ddarllenai byth heb ddychryn; ond penderfynwyd trwy fwyafrif ei bod eto i sefyll yn rhan o grefydd Eglwys Sefydledig Lloegr. Y mae y ferch yn tebygu cymmaint i'r fam eglwys y dyddiau rhai'n, fel y gofyna i Brotestaniaeth fod ar ddihun, a gwrthweithio tueddiadau Pabyddol ein crefyddwyr sefydledig, os am luddias oes yr ystanc a'r ffagodau unwaith eto. Gyd-Brotestaniaid! gwyliwn! byddwn weithgar a ffyddlon.

Mesur y Trwyddedau.

Dywed dysgedigion wrthym nad oes un effaith heb achos. Beth ynte a achosa'r holl drueni, tylodi, anghysur, a phechod sydd yn ein gwlad? Onid yw y pwnc hwn yn teilyngu sylw, ac ai angenrheidiol chwiliad manwl i'w ddarganfod? Y mae gormod o amddifadrwydd cysur a llygredigaethau yn y parthau gwledig o'n teyrnas. Ni a ddymunwn, pe medrwn, eu celu. Maent yn ffeithiau gofidus, rhy danbaid; ond os am ddarlun perffaith a chywir o wirioneddol drueni, tyred, ddarllenydd, i rai o'n trefydd mawrion am dano—meithrinleoedd annuwioldeb, drygioni, ac adfyd—nythoedd yr anfoesoldeb a phechodau hyllaf ac erchaf a anaddurnant ein daear. Hiraetha llawer, yn enwedig y genedl ieuainc, am fyw mewn tref. Ymddengys rhyw fawredd a rhwysg iddynt yn y drychfeddwl. Nis mynwn er dim, dealler, gynghori neb beidio mynu canfod golygfeydd ysblenydd, rhyfeddodau celfyddydol ein dinasoedd a'n trefydd. Mae yn resyn meddwl fod neb yn gorfod marw heb eu gweled; ond, ddarllenydd anwyl, os caniata amgylchiadau, trigiana yn y wlad, anadla awyr bur ac iach ei bryniau a'i meusydd. Hyf ei dyfroedd gloew, grisialaidd, yn lle tywalltiad pibellau haiarn a lleidiog y trefydd. Ymhyfryda yn rhodfeydd ardderchog a iachus y wlad, yn hytrach nac ystrydoedd trwm ac afiachus y dref. Mwynha goedwigoedd *byw* y wlad, yn lle coedwigoedd *marw* o dai y dref. Mewn gair, sugna nerth ac iechyd corfforol a meddyliol oddiwrth buredd awyrol y wlad, yn lle trymhau a chlafeiddio dy gorff ac enaid yn niwl a llwch afiach y trefydd. Mae byw mewn tref wedi profi yn ddistryw melldithiol i ganoedd o deuluoedd a bechgyn ieuainc, o herwydd nifer y temtasiynau a'u cyfarfyddant yno, *a gwendid eu hegwyddorion hwythau i'w gwrthwynebu*. Wel ynte, beth sydd wrth wraidd hyn oll? Beth yw prif a phenaf achos yr holl druenusrwydd ac halogrwydd aruthrol hwn? Beth sydd wedi profi'n ddistryw i ganoedd o deuluoeed a allasent fod yn ddarluniau tlws o wir hapusrwydd a chysur? Beth yn benaf sydd wedi denu y bachgen ieuane oddiar lwybr sobrwydd a buchedd dda, ac wedi dinystrio ei unwaith ragolygon gobeithiol ac addawol, wedi ei suddo yn isel yn mhwll gwarth a gwaradwydd am byth? Ai afresymol olrhain yr effaith wallus hon i'r diodydd meddwol, a'r cwmpeini llygredig yr arweiniant ddynion iddynt? Y mae yn waith canmoladwy iawn yn ein seneddwyr i ymdrechu atal y llifeiriant ofnadwy a dinystriol hwn, ond mae'n ofynol cymhwyso'r gwelliant yn nes gartref na chau tafarndai ar ryw awr benodol, na chwtogi pwer yr awdurdodau i ganiatau trwyddedau, cyn byth y cawn ddiwygiad trwyadl yn ein gwlad. Mae yna rywbeth yn fyr yn y dyn cyn byth y sycheda am y cwppan na'r dafarn, cyn byth yr hiraetha am fynychu cwmpeini, y gwn na wna ond ei halogi. Tra parhao'r duedd a'r awyddfryd yn y dyn, tra parhao ar safle ac mewn cyflwr mor isel a thruenus, 'does yr un ddeddf seneddol a'i cadwa oddiwrth y cwppan a'i ganlyniadau echryslon. Yn enw pob peth sydd resymol a rhinweddol, *addysgwn* y bobl. Ymdrechwn trwy hyny godi eu chwaeth at amgenach fyfyrdodau na'r ddiod a'r gwin. Gwnawn ein goreu, ac na rwgnachwn dair ceiniog yn y bunt yn daliad am y cyfryw fraint, i droi eu meddyliau at ddiwylliant a dadblygiad o'u cyneddfau ardderchog, a'u cymhwyso i ddybenion da, i sirioli a chrefyddoli eu

haelwydydd; i ddysgu eu plant mai rhinwedd, daioni, a phurdeb calon yn unig a weinant gysur gwirioneddol iddynt; mai gwarth ar ddynolryw yw effeithiau y diodydd meddwol, ac nad yw dillad gwychion a'r cyfryw ymddangosiadau gwag ond arwyddion o ysgafnder yn hytrach na gwir fawredd meddwl.

Y mae y Mesur hwn a ddygwyd i mewn gan Mr. Bruce, yr Ysgrifenydd Cartrefol, yn un dyrus iawn, ac a gyfnewidir yn fawr eto cyn dyfod yn gyfraith yn ddiamheu. Cynygia y diwygiadau canlynol:—Lleihau nifer y tafarndai presenol; byrhau'r oriau y byddant yn agored; cospi yn llymach nac erioed feddwon, a'r sawl a ganiatant bresenoldeb y cyfryw yn eu tai; rhoddi llais i'r trethdalwyr y'nghylch caniatau trwyddedau, ac os byddai tair rhan o bump yn gwrthwynebu, i'r trwydded gael ei gwrthod, fel y bydd yr ynadon bellach i raddau dan reolaeth y trethdalwyr; dosberthir trwyddedau yn ol y nifer y boblogaeth. Fel y gellir dysgwyl, mae'n ammhosibl eto fanylu ar y cyfnewidiad pwysig hwn yn ein trefn drwyddedol, gan na chawsom ond braslun o'r Mesur. Yn ein nesaf, cawn sylwi yn fanwl arno, gan ei fod yn dal cysylltiad agos a ni, ac yn debyg o effeithio llawer yn rhyw gyfeiriad ar y fasnach feddwol, yr hon sydd mewn cymmaint rhwysg yn ein gwlad, ac yn dwyn cymmaint gwarth arnom fel cenedl o Gristionogion.

Ysgrif Priodi y Chwaer-y'nghyfraith.

Gwyr darllenwyr yr Ymofynydd, fod y Mesur hwn wedi bod o flaen y wlad am flynyddoedd, mai un ydyw i gyfreithloni gwr gweddw, os y dymunai, i briodi chwaer ei wraig drancedig, ac i ddileu y Mesur sydd mewn grym yn bresenol yn gwahardd hyny. Gwrthodwyd ef yn ddiseremoni, am y chwechfed gwaith, gan Dy yr Arglwyddi eleni eto! Uwchben y fath ymddygiadau gwarthus a hyn, y mae dyn yn barod i ofyn mewn sobrwydd, pa ddyben mai Ty yr Arglwyddi yn ateb fel rhan bwysig o'n Cyfansoddiad i lesoli y wlad a'r oes? Os mai atal Mesurau rhyddfrydig a phwysfawr, a difuddio'r wlad o'u lles—os mai tagu pob ymgais i enill Rhyddid a Chydraddoldeb yw amcan y Ty hwn, goreu i gyd po gyntaf y diddymir ef, ac y danfonir yr esgobion gartref i ofalu am eu dyledswyddau yn eu gwahanol esgobiaethau, ac y gafaela'r Arglwyddi eraill mewn gorchwyliaethau mwy cydweddol a'u natur na chaboli deddfau seneddol,—gwaith nad ydynt yn fwy addas i gyflawni na thi a minau, ddarllenydd. Os na allant ddilyn yspryd yr oes, ymaith a hwynt o faes y frwydr!

Mesur y Trethoedd.

Mesur yr un mor bwysig a'r eiddo Mr. Bruce yw hwn eto, dan ofal y gwleidyddwr ieuanc a thalentog, Mr. Goschen, yr hwn sydd yn addaw cyrhaedd safle uchel cyn hir |fel rhyddfrydwr selog a goleuedig Amcan y Mesur hwn yw uno yr holl fân daliadau a threthoedd plwyfol a threfol yn un drysorfa fawr, a'u casglu, nid trwy y drefn bresenol, ond trwy gasglydion appwyntiedig gan y Llywodraeth.

Mesur y Mynwentydd.

Y mae rhyw gysegredigrwydd dwfn yn perthyn i fynwentydd, gorweddfeydd heddychol y marw. Gofyna'r teimladau dynol y parch difrifolaf i'r oll a ddeil gysylltiad a'r ymadawedig, ac nid oes dim yn fwy tueddol o greu digllonedd y'nghalon dyn nac unrhyw ymgais i ddiraddio mewn un modd hyd yn nod weddillion difywyd ei gydymaith, heb son am ei goffadwriaeth a'i barch. Wrth gwrs, nid ydyw o unrhyw bwys sylweddol pa le, nac y'mha fodd, y cleddir ein hen dai dadfeiliedig; ond mae teimladau'r byw yn gofyn pob peth. Y mae rhyw awydd ynom oll i gydorwedd a'n perth-

ynasau a'n ffryndiau yn rhai o hen gladdfeydd ein gwlad, pa rai sydd yn anwyl a chysegredig i ni er mwyn y tadau sydd yn huno yno; ond blin meddwl, gymmaint caethiwed sydd yn ein gwlad eto fel mai trwy blygu i ddeddfau penodol yr Eglwys Sefydledig y caiff Ymneillduwr ei gladdu o gwbl yn mynwent y plwyf—eiddo cyffredinol y genedl—ac nid oes yma ganiatad i neb sydd tu allan i'r Eglwys gael gweinyddu mewn angladdau o'r fath. Y gweinidog a fu yn fugail a chyfaill duwiol a defnyddiol i'r ymadawedig, a fu yn foddion, dichon, i'w ysprydoli ag egwyddorion uchel am ei ddyledswydd tuag at Dduw a dyn, cyfleu iddo syniadau priodol o'r byd hwn a'r dyfodol; mewn gair, ei wneyd yn wir Gristion—yn ddyn gwir *grefyddol* yn ystyr iawn y gair, y gweinidog hwn y mae rheolau caethiwus yr Eglwys Sefydledig yn wahardd i weinyddu y gymwynas olaf i'w ffrynd ymadawedig. Ond y mae hyn oll ar gyfnewid, ni a obeithiwn. Y mae Mesur Mr. Osborne Morgan i agor y mynwentydd wedi pasio yr ail ddarlleniad yn Nhy y Cyffredin, ac yn debyg o ddyfod yn gyfraith y tymhor presenol os na wrthoda Ty'r Arglwyddi hwn eto.

WAETH PWY.

Bu Farw.

Chwefror 20, 1871, Hannah Jones, Tynrheol, gweddw y diweddar David Jones, Ram Inn, yn mhlwyf Pencareg, ger Llanbedr, Ceredigion, yn 73 oed. Dengys ffeithiau hanesiol o fywyd gwrthddrych ein cofnod ei bod wedi dangos ffyddlondeb mawr tuag at achos Iesu Grist trwy gydol ei bywyd crefyddol; canys teithiodd trwy ludded a methiantwch henaint yn ddiflin drwy ystormydd erch gauaf du, a thrwy hinon desog haf yn barhaus bob Sabboth pan yn iach, trwy ystod yr ugain mlynedd diweddaf o'i hoes, i Gaeronen, Cellan, y pellder o oddeutu tair milltir.

Gwyn fyd na bai deubarth o ysbryd ein hen chwaer ymadawedig yn disgyn ar ieuenctyd ein gwlad, ac ar bob oedran yn gyffredinol. Boed i'w phlant ei hefelychu y'mhob daioni, gan gymeryd iau yr addfwyn Iesu arnynt yn nhymhor bywyd, gan ystyried mai hyny yw eu rhesymol wasanaeth. Darllenodd Hannah ei Beibl yn dra manwl, a dios iddi gael llawer iawn o gysur a dedwyddwch yn yr hen gyfrol fendigedig ganoedd o weithiau wrth deithio anialwch bywyd. Credai yn gadarn fod pob peth yn y fuchedd hon yn cydweithio i buro'r Cristion yn lan i fwynhau dedwyddwch parhaus o Nefol wynfa—ac adroddai yn fynych eiriau y Bardd, pa rai sydd fel y canlyn:—

"Nid oes nac yn na than y nef, nad Ef sydd yn ei beri,
Ac ef a roes—gwnned dyn ei ran—y cyfan er daioni."

Ar ddydd ei hangladd pregethwyd yn y ty gan y Parch. Rhys C. Jones, Cribin, oddiwrth 2 Cor. v. 1. Cawsom ganddo sylwadau tra addysgiadol oddiwrth y testyn. Yna cychwynwyd a'r corff tua chladdfa Caeronen, a chladdwyd hi yn ymyl ei phriod, hyd y cyfnod dedwydd hwnw i bob Cristion:—

"Pryd y ca pawb gyfodi a byw
Trwy ewyllys da a gallu Duw."

Chwef. 24, 1871, yn 14 oed, David Davies, Royal Oak, Cellan, ger Llanbedr, mab Margaret Davies, gweddw y diweddar James Davies, Efail Tynlon, Llanfair Clydogau, a merch y diweddar Jenkin Davies, o'r Llwyn, yr hwn ydoedd un o Undodiaid mwyaf enwog glenydd y Teifi; coffa da am ei enw. Dangosodd y bachgenyn ieuainc trancedig brydferthwch a symlrwydd y'mhell tu hwnt i'r cyffredin o'i gyfoedion trwy ystod ei fywyd byr-barhaol ar y ddaear. Ymunodd ag eglwys Crist yn Nghaeronen yn ddiweddar, dangosodd esiampl ragorol i'w gyd-oedran, sef "Dwyn yr iau yn ei ieuenctyd." Bydded i'w fam a'i chwaer alaru fel rhai a gobaith da ganddynt ar ei ol. Boed iddynt ymofyn am y tangnefedd hwnw sydd yn well na'r bywyd, fel y gallont gael cyd-gwrdd a'u mab a'u brawd eto mewn gwynfyd didranc, lle ni bydd rhaid ymadael mwy. Pregethwyd yn ei angladd gan y Parch. Rhys C. Jones, Cribin, oddiwrth Amos iv. 12. Claddwyd ef yn mynwent Caeronen yn ymyl beddrod ei dad.

Dafydd, Dafydd, ti ddiengaist
Adreu i drag'wol hedd,
Llwyr adewaist bob rhyw ofid,
Am fwynhad o wlad y wledd.

'Roedd dy gorff di yn rhy wanllyd
I drigianu yma yn hwy,
Bydd yn gryfach y tro nesaf—
Daw o'r bedd heb loes na chlwy.

TEIFIWYSON.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, LLYFRWERTHWYR, CAERFYRDDIN.